

Enw: _____



Dosbarth: _____

Gwaith cartref – Tymor y Gwanwyn 2020

Cwblhewch o leiaf 5 tasg erbyn dydd Gwener, Mawrth 27ain. Disgwylir i bawb gwblhau'r dasg orfodol (Celf a Chrefft) a dewis o leiaf 4 tasg arall, ond mae croeso i chi gyflwyno mwy. Cewch ddewis tasgau sydd o ddiddordeb penodol i chi.

Mae croeso i chi gyflwyno eich tasgau mewn unrhyw ffordd ac ar unrhyw bryd rhwng nawr a diwedd y tymor.

Onid peidiwch â gadael popeth tan y funud olaf!

Mwynhewch ddysgu gan ddatblygu eich sgiliau creadigol a gweithio'n annibynnol.

<p>Celfyddydau Mynegiannol</p> <p style="text-align: center;"><u>TASG ORFODOL</u></p> <p>Eisteddfod yr Urdd 2020</p> <p>Crëwch ddarn/ddarnau o waith celf yn seiliedig ar thema 'Môr a Mynydd' mewn unrhyw gyfrwng, e.e. paent, clai, pastelau, digidol, collage, ffotograffiaeth. <input type="checkbox"/></p>	<p>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu</p> <p>Crëwch ffeil-o-ffaith manwl am Gymro neu Gymraes yr ydych yn ei edmygu neu berson sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i Gymru. <input type="checkbox"/></p>	<p>Iechyd a Lles</p> <p>Cynlluniwch gêm newydd i grŵp o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 medru chwarae ar iard yr ysgol. Cofnodwch y rheolau yn drefnus ac yn glir. <input type="checkbox"/></p>	<p>Mathemateg a Rhifedd</p> <p>Defnyddiwch J2Blast er mwyn ymarfer y tablau gan wella eich sgôr a chwblhau'r gemau yn gyflymach. Nodwch eich sgôr a'ch amser ar gyfer pob tabl. <input type="checkbox"/></p>
<p>Celfyddydau Mynegiannol</p> <p>Gwrandewch ar nifer o ganeuon Cymreig ar radio Cymru/ Cymru FM ar y we. Pwy yw eich hoff ganwr/ gantores a'ch hoff fand Cymreig? Cofnodwch 5 ffaith ddiddorol amdanynt. <input type="checkbox"/></p>	<p>Language, Literacy and Communication</p> <p>Research information about Greta Thunberg, the Swedish activist, and her effort to draw attention to world climate change. <input type="checkbox"/></p>	<p>Dyniaethau</p> <p>Y Pasg - Cyflwynwch hanes wythnos olaf Iesu ar ffurf cartŵn, dyddiadur, adroddiad papur newydd neu fel sgrïpt. Dechreuwch gyda Sul y Blodau a gorffen ar Sul y Pasg pan wnaeth yr Iesu atgyfodi. <input type="checkbox"/></p>	<p>Mathemateg a Rhifedd</p> <p>Edrychwch ar dywydd Caerfyrddin ar S4C Tywydd ar y teledu neu ar y we dros gyfnod o wythnos a chofnodwch y tymheredd uchaf a'r isaf bob dydd. Cyfrifwch y modd, amrediad, canolrif a chymedr y data. <input type="checkbox"/></p>
<p>Iechyd a Lles</p> <p>Pythefnos Masnach Deg – 24.2.20 tan 8.3.20</p> <p>Paratowch boster neu gyflwyniad effeithiol a deniadol gan ddefnyddio TGCh ar gyfer annog eraill i brynu nwyddau Masnach Deg a'i arbed yn eich cyfrif HWB. <input type="checkbox"/></p>	<p>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu / Language, Literacy and Communication</p> <p>Dydd y Llyfr/ World Book Day – Mawrth 5ed</p> <p>Ysgrifennwch adolygiad llyfr o'ch dewis. <input type="checkbox"/></p> <p>Choose a book and write a Review of your choice. <input type="checkbox"/></p>	<p>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</p> <p>Cynlluniwch felin wynt arbennig ar gyfer cynhyrchu ynni i Ysgol y Dderwen. Wrth gynllunio cofiwch nôl at yr ymweliad â Fferm Parc Cynog a'r hyn a ddysgoch am nodweddion melinau gwynt. <input type="checkbox"/></p>	<p>Mathemateg a Rhifedd</p> <p>Edrychwch ar dywydd Caerfyrddin ar S4C Tywydd ar y teledu neu ar y we dros gyfnod o wythnos a chofnodwch y tymheredd uchaf bob dydd. Lluniwch graff llinell gan ddewis graddfa addas a chynnwys teitl priodol. <input type="checkbox"/></p>

